

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6/11/2018

**Presennol:** Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1925 Hyfforddiant Un Llais Cymru:** Croesawyd aelodau o Gyngor Cymuned Llangywer i rannu'r hyfforddiant ar "Gynllunio Cymunedol". Cytunwyd ei bod yn braf cael cydweithio a chymdeithasu. Diolchwyd i Bwyllgor yr Ysgoldy am gael defnyddio'r adnoddau a chytunwyd i gael trafodaeth yn y cyfarfod nesaf ar leoliad cyfarfodydd yn y dyfodol.

**1926** Llongyfarchwyd Mrs Oleuli Roberts ar ei chanfed pen-blwydd y mis hwn; bydd yn bleser gan y Cyngor gyflwyno rhodd iddi ar yr achlysur nodedig hwn a diolchwyd i'r Cadeirydd am weithio'r englyn a gwneud y trefniadau. Derbyniwyd Ymddiheuriadau oddi wrth Lindsey Ellis-Edwards, Dewi Jones, Karl Jones, ac Alwyn Roberts.

**1927 Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym mater cyfraniad i gynnal Neuadd Bentref Llanuwchllyn(eitem 1933).

**1928 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 2il, 2018.

#### **1929 Materion y Clerc:**

- i. Croesi'r A494 yn ddiogel: derbyniwyd copi o lythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Trafnidiaeth at Dafydd Elis-Thomas AC yn addo ystyried diogelwch cerddwyr sy'n croesi'r A494 wrth bont y Lliw. Nododd ymhellach fod gan yr awdurdod lleol yr hawl i weithredu tu allan i ardaloedd dynodedig pe byddent yn credu fod hynny'n briodol. Mae'n fwriad gan Gyngor Gwynedd i baratoi map rhwydwaith (llwybrau) integredig ar gyfer yr ardal hon yn y dyfodol. Diolchwyd am yr wybodaeth hon. Derbyniwyd neges gan Tomos Jones (Archeolegydd Parc Cenedlaethol Eryri) ei fod yn deall fod cynlluniau i lefelu'r rhan hon o'r A494 ac felly ni fyddai'n trefnu cyfarfod safle i drafod croesi'r ffordd yn ddiogel nes byddai'r sefyllfa'n gliriach.
- ii. Gŵyl Triathlon – derbyniwyd neges gan Iolo Tegid am y cynigion diweddaraf a chytunodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Sir ac Arwel Lloyd Jones fynegi barn y Cyngor yn y cyfarfod nesaf pryd y trafodir trefniadau ar gyfer 2019.
- iii. Cymeradwywyd Cofnodion yr Is-Bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 22/10/18.

**1930** Adroddodd y Cyngorydd Alan Jones Evans am faterion llwybrau y bu yn ymwneud a nhw. Trefnodd bod sticeri yn cael eu gosod ar y biniau sbwriel i nodi y gellid gadael bagiau baw cŵn ynddynt. Trefnodd ymweliad safle gyda Dylan Wyn Jones (Adran Diogelwch) i drafod problemau parcio yn y pentref; bydd hefyd yn ei holi am fesurau gorfodaeth ar y sawl sy'n parcio ar linellau melyn dwbl. Bydd y grŵp Sylfeini yn cynnal digwyddiad agored ym mis Ionawr i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer datblygu safleoedd adeiladu o fewn y pentref i gyfarfod ag anghenion lleol.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Alwyn E Jones

---

- 1931** Mae trefniadau goleuo'r goeden mewn llaw.
- 1932** Cytunwyd i roi trefniadau'r Noson Goffi ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
- 1933** Cytunwyd i gyfrannu £750 tuag at y Neuadd Bentref yn unol â'r Gyllideb.
- 1934** Cymeradwywyd cais Cynllunio NP5/71/L319B sef estyniadau cefn i Dyddyn Felin.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ragfyr y 4ydd am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.